## Canllaw Gosod Minecraft Technocamps

Croeso i ganllaw Technocamps ar sefydlu Minecraft: Education Edition. Mae'r canllaw hwn ar gyfer disgyblion, athrawon a rhieni ac mae'n ymdrin â rhai o nodweddion pwysig y fersiwn Addysg. Gyda hwn, dylech chi fod yn osgoi creepers, mwyngloddio diemwntau, ac ysgrifennu cod mewn dim o dro!

I ddefnyddio'r canllaw hwn, edrychwch ar y tabl cynnwys isod a dewiswch dudalen sydd fwyaf defnyddiol i chi.

### Cynnwys

2. Alla i Ddefnyddio MC:Edu?
3. Defnyddio Cyfrif Ysgol
4. Defnyddio Cyfrif heblaw am un Ysgol
5. Gosod MC:Edu Catref
8. Sut i fewngofnodi i MC:Edu
9. Allforio ffeiliau .mcworld
11. Mewnforio ffeiliau .mcworld
12. Defnyddio Minecraft ochr yn ochr â rhaglen arall
14. Gwneud i Minecraft redeg yn esmwyth
15. Datrys Problemau

## Alla i Ddefnyddio MC:Edu?

### Beth yw Minecraft: Education Edition?

Mae Minecraft: Education Edition yn fersiwn addysgol o'r gêm boblogaidd. Mae'n cynnwys llawer o nodweddion sy'n wych ar gyfer dysgu Cemeg, Mathemateg a Chyfrifiadureg. **Nid oes** gan fersiwn fasnachol (arferol) y gêm yr un nodweddion.

### Ar ba ddyfeisiau ydy MC:Edu yn gweithio?

Mae Minecraft arferol yn rhedeg ar bob math o ddyfeisiau. **Nid yw** MC:Edu yn gwneud hynny. Dyma restr o ba ddyfeisiau ddylai allu ei rhedeg.

| Dyfais | Yn Rhedeg MC:Edu |
|---|---|
| Windows PC | **Ydy** |
| Apple Mac | **Ydy** |
| Chromebook | **Ydy** |
| Apple iPad | **Ydy** |
| | |
| Microsoft Xbox | **Nac Ydy** |
| Sony PlayStation | **Nac Ydy** |
| Nintendo Switch | **Nac Ydy** |
| Ffôn Android | **Nac Ydy** |

Rhaid i'ch dyfais hefyd fod yn ddigon **pwerus** i redeg y gêm. Dylid gwirio hyn bob amser **cyn i chi brynu neu osod y gêm!** (gweler tudalen 5).

# Defnyddio Cyfrif Ysgol

## Cael Mynediad at Gyfrif Ysgol

Mae MC:Edu yn defnyddio cyfrifon Microsoft ar gyfer Addysg. Mae'r rhain yn gyfrifon arbennig sy'n wahanol i gyfrifon Minecraft arferol. Efallai bod eich ysgol eisoes wedi prynu un o'r cyfrifon hyn i chi.

I lawer o ysgolion, dyma'ch cyfrifon **Hwb**. Os oes gennych gyfrif Hwb, **dylech** gael mynediad i'r gêm yn awtomatig a **dylech** barhau i ddarllen. Os nad yw'ch ysgol yn defnyddio Hwb, ewch i'r cwestiwn olaf ar y dudalen hon.

## C: Nid ydw i'n gwybod cyfeiriad e-bost fy nghyfrif Hwb!

**A:** Gofynnwch i'ch Athro neu Dechnegydd TG ei ddarganfod i chi. Dylai edrych yn debyg i'r e-bost isod, ond gan ddefnyddio'ch manylion chi yn lle.

**skywalkerl1051@hwbcymru.net**

## C: Nid ydw i'n gwybod cyfrinair fy nghyfrif Hwb!

**A:** Bydd angen i chi ofyn i'ch Athro neu Dechnegydd TG ailosod eich cyfrinair.

## C: Nid yw fy ysgol yn defnyddio Hwb! Allai ddefnyddio'r gêm?

**A:** Os nad yw'ch ysgol yn defnyddio Hwb, efallai y bydd ganddyn nhw drwydded Minecraft Edu eu hunain. Os yw hyn yn wir, gofynnwch i'ch athro neu dechnegydd TG a gallant eich atgoffa o'ch manylion mewngofnodi.

Os nad yw'ch ysgol yn defnyddio Hwb ac nad oes ganddi MC: Edu, **gweler tudalen 4.**

# Defnyddio Cyfrif heblaw am un Ysgol

## Cael Mynediad at Gyfrif y Tu Allan i'r Ysgol

Os yw'ch ysgol yn defnyddio Hwb, neu eisoes wedi cael cyfrifon Minecraft, ewch i **dudalen 5.**

Os nad yw'ch ysgol yn defnyddio Hwb neu Minecraft, neu os ydych chi'n cael eich addysgu cartref, yr unig ffordd i gael Minecraft: Education Edition yw prynu trwydded.

Dim ond yn ddiweddar y mae Microsoft wedi caniatáu i drwyddedau gael eu prynu y tu allan i ysgolion ac felly gall y broses fod yn hir. Dechreuwch y broses hon o leiaf wythnos neu ddwy cyn bod angen Minecraft arnoch.

Os ydych chi eisiau prynu trwydded Education Edition, ewch i:

**https://education.minecraft.net/en-us/licensing**

Yna, cliciwch '**Buy Now**' yn yr adran '**Camps, Clubs and Organizations**' a welir ar y wefan.

I gael cyfarwyddiadau gyflawn, ewch i:

**https://educommunity.minecraft.net/hc/en-us/articles/360061369812-Purchase-Commercial-Licenses**

Ar ôl i chi gael trwydded ddilys, gallwch ddilyn gweddill y canllaw hwn gyda mân wahaniaethau.




## Gosod MC:Edu gartref

1. I lawrlwytho'r gêm, agorwch borwr ac ewch i'r wefan hon:

   education.minecraft.net

2. Cliciwch "Download" yn y dde uchaf.





3. Sgroliwch i lawr nes i chi ddod o hyd i "Click here to check" a gwirio a all eich cyfrifiadur redeg Minecraft.

   **Rhybudd**: Canllaw bras yn unig yw hwn. Nid yw'n gwirio a all eich cyfrifiadur redeg y gêm, dim ond ai'ch cyfrifiadur yw'r math cywir o ddyfais. Yn lle, ewch i **https://educommunity.minecraft.net/hc/en-us/articles/360047556591-System-Requirements** i wirio os all eich dyfais redeg Minecraft.



## Gosod MC:Edu gartref

4. Cliciwch **Download Now**:




Fel arall, sgroliwch ymhellach i lawr y dudalen i ddod o hyd i wahanol fersiynau neu opsiynau ychwanegol:

**ADDITIONAL PLATFORMS**

| | |
|---|---|
| WINDOWS | CHROMEBOOK |
| MAC | IPAD |

On Windows platform, you can also **download from Windows Store.**

If you already have Minecraft: Education Edition installed, **follow these instructions** to get the update.


Classroom Mode is available for **Windows** and **Windows**. **Learn more here.**

## Gosod MC:Edu gartref


6. Mae hyn yn lawrlwytho **Installer** a fydd yn gosod y gêm ar eich dyfais. Mae pob dyfais yn wahanol, ac efallai y bydd angen i chi ofyn i rywun eich helpu.

   Dyma fi'n mynd i ddangos fersiwn **Windows** o'r broses osod i chi, ond dylai fod yn debyg ar gyfer dyfeisiau eraill:

   Yn gyntaf, darganfyddwch i le mae'ch **Porwr** (Chrome, Safari, Edge, Firefox, ac ati) wedi lawrlwytho'r gêm:





   Mae'n edrych fel bod fy Porwr wedi ei lawrlwytho i'r Ffolder **Downloads**. Wrth edrych y tu mewn, gallaf ddod o hyd i'r Installer a'i **agor** er mwyn dechrau ei osod.



## Sut i fewngofnodi i MC:Edu

1. Wrth ddechrau'r gêm yn gyntaf, bydd yn gofyn i chi fewngofnodi i'ch cyfrif. Teipiwch eich manylion mewngofnodi yma.




2. Yna mae'r gêm yn llwytho i'r **Brif Ddewislen**. Cliciwch **Play**. O'r ddewislen Play, gallwch greu byd neu bori rhai parod. Wrth glicio **View Library** -> **How to Play**, gallwch ddod o hyd i sesiynau tiwtorial os ydych chi'n newydd i'r gêm.



## Allforio ffeiliau .mcworld


Dim ond ar y ddyfais y gwnaethoch chi'r bydoedd Minecaft y maen nhw'n gael ei storio, **nid** yn y cwmwl. Os ydych chi'n mewngofnodi i ddyfais wahanol, **ni fyddwch** yn gallu dod o hyd i'ch bydoedd yno.

I symud bydoedd o gwmpas, mae angen i chi eu newid i ffeiliau .mcworld.

Ffeiliau .mcworld yw'r ffordd hawsaf o rannu bydoedd gyda'ch ffrindiau neu athrawon, symud bydoedd i wahanol ddyfeisiau, neu lawrlwytho bydoedd o'r Rhyngrwyd.

### Allforio Bydoedd

1. I allforio byd, rhaid i chi ddod o hyd iddo yn newislen **My Worlds** a chlicio **Settings**.




2. Yn **Settings**, sgroliwch i lawr nes i chi ddod o hyd i **Export World**.



## Allforio ffeiliau .mcworld

3. Efallai y bydd eich dyfais nawr yn dangos ffenestr arbed. Yma, rhowch enw synhwyrol i'ch byd.

   (Os ydych chi'n anfon eich byd at eich athro neu at Technocamps, mae'n debyg y dylech gynnwys eich enw llawn fel rhan o enw'ch byd fel y gallant ddweud pwy sy'n bia'r byd.)

   Fe ddylech chi hefyd ddewis arbed eich byd mewn ffolder sy'n hawdd ei gofio (fel Documents neu Desktop) fel y gallwch chi ddod o hyd iddo eto.




   Os ydych chi ar Chromebook neu iPad, efallai y bydd eich byd yn cael ei achub yn rhywle heb iddo adael i chi wybod. Bydd yn rhaid i chi ddod o hyd iddo.

   Ar Chromebook, mae'n debyg mai'ch ffolder Downloads fydd hi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n symud eich byd allan o fan hyn ac i mewn i Google Drive oherwydd bydd Chromebook yn dileu pethau o'r ffolder Downloads yn awtomatig os yw'n mynd yn rhy llawn.

# Mewnforio ffeiliau .mcworld


## Mewnforio Bydoedd

1. I fewnforio ffeil .mcworld, bydd angen i chi ei rhoi ar eich cyfrifiadur rywsut. Gallai hyn olygu ei lawrlwytho o wefan, ei gopïo o rwydwaith eich ysgol, neu ei gopïo o ffon gof. Pa bynnag ddull rydych chi'n ei ddefnyddio, cofiwch ble rydych chi'n rhoi'r ffeil honno.

2. Yn MC: Edu, cliciwch **Play** ar y brif ddewislen. Yma, dylech weld botwm o'r enw **Import**.




Ar ôl clicio hynny, bydd eich dyfais yn gofyn i chi ddod o hyd i'r .mcworld rydych chi am ei fewnforio. Ar ôl i chi ddod o hyd iddo, bydd y gêm yn mewnforio'r byd a'i roi yn eich dewislen **My Worlds**.



## Defnyddio Minecraft ochr yn ochr â rhaglen arall

Efallai yr hoffech chi ddefnyddio Minecraft ar yr un pryd â rhaglen fel Zoom, Google Meet, neu Microsoft Teams. Y ffordd honno, byddwch chi'n gallu dilyn ynghyd ag unrhyw wersi yn y cyfarfod ac yn Minecraft ar yr un pryd.

Mae yna lawer o ffyrdd o reoli'ch cyfrifiadur i wneud defnyddio Minecraft ac unrhyw raglen arall gyda'i gilydd yn llawer haws:

### Newid rhwng Rhaglenni:

- Mae'n hawdd cael Zoom, Teams, ac ati ar agor yn y cefndir gyda Minecraft ar ei ben..

  Os oes angen, gallwch newid pa raglen sydd o'ch blaen yn hawdd.

- Windows: Pwyswch a Dal **Alt** ar eich bysellfwrdd. Yna gwasgu **Tab** i newid i'r ffenestr rydych chi ei eisiau.
- Mac: Gallwch defnyddio Mission Control. I agor Mission Control, **sweipio i fyny** ar y trackpad gyda **thri** bys neu gwasgu y botwm ⊟▯ ar y bysellfwrdd.
- Chromebook: Pwyswch a Dal **Alt** ar eich bysellfwrdd. Yna gwasgu **Tab** i newid i'r ffenestr rydych chi ei eisiau.
- iPad: **Sweipiwch** i'r chwith neu i'r dde gyda phedwar neu bump bys. Neu, sweipiwch i'r chwith neu dde gydag un bys ar hyd ymyl waelod y sgrin.

## Defnyddio Minecraft ochr yn ochr â rhaglen arall

### Defnyddio Dwy Sgrin/Ddyfais:

- Os oes gennych chi ddwy sgrin, gallech chi gael Zoom, Teams, ac ati ar agor ar un sgrin a Minecraft ar agor ar y llall.
- Gallech hefyd gael yr ap ar gyfer eich rhaglen gyfarfod ar agor ar gyfrifiadur arall neu ffôn/tabled a Minecraft ar agor ar eich prif ddyfais.

### Newid Rhwng Byrddau Gwaith:

- Mae rhai dyfeisiau'n cefnogi mwy nag un bwrdd gwaith. Gallwch gadw eich rhaglen gyfarfod ar agor ar un bwrdd gwaith a Minecraft ar un arall.
  - Windows: Gwasgwch ⊞ **+ D** i greu bwrdd gwaith newydd. Yna **Ctrl +** ⊞ **+ LeftArrow neu Ctrl +** ⊞ **+ RightArrow** i newid rhwng byrddau gwaith.
  - Mac: Agorwch Mission Control fel ar y dudalen blaenorol a clicio'r symbol **+** yn y cornel chwith uchaf i greu bwrdd gwaith newydd. Yna newidwch rhwng byrddau gwaith trwy droi i'r chwith neu'r dde ar y trackpad/llygoden gyda **thri** bys.

## Gwneud i Minecraft redeg yn esmwyth

Fel pob meddalwedd, mae Minecraft yn llyfnach ar rai cyfrifiaduron nag ar eraill. Os yw Minecraft yn anodd ei reoli, yn edrych fel sioe sleidiau, neu'n ymddwyn yn rhyfedd, mae angen i chi newid eich **Gosodiadau Fideo**.

Mewn byd, pwyswch **Esc**, yna cliciwch ar **Settings**. Dewch o hyd i **Video** a dewis y gosodiadau sydd orau i'ch cyfrifiadur:

**Cyfrifiaduron Arafach:**




**Cyfrifiaduron Cyflymach:**



## Datrys Problemau

Os na allwch gael Minecraft Education Edition i gweithio am unrhyw reswm, defnyddiow y rhestr wirio hon:

1. Rydw i wedi gwirio bod fy nghyfrif wedi'i sefydlu i ddefnyddio Minecraft.
2. Rydw i'n defnyddio dyfais y gall y Education Edition ei defnyddio (**tudalen 1**).
3. Rydw i wedi lawrlwytho'r fersiwn gywir ar gyfer fy nyfais (**tudalen 6**).
4. Rydw i wedi llwyddo i osod y gêm ar fy nyfais (**tudalen 6**).
5. Mae fy nyfais wedi'i chysylltu â'r Rhyngrwyd. Mae angen hyn ar gyfer mewngofnodi (**tudalen 8**).
6. Nid yw fy rhwydwaith yn blocio'r gwefannau y mae angen i MC gyfathrebu â nhw (**gweler y ddolen**).
7. Mae fy nghyfeiriad e-bost a chyfrinair yn gywir (**tudalen 8**).
8. Rydw i wedi sicrhau bod gen i'r fersiwn ddiweddaraf o'r gêm (**rhif fersiwn yng nghornel gwaelod-dde'r brif ddewislen**).
9. Rydw i wedi addasu'r gosodiadau yn y gêm i sicrhau bod y gêm yn rhedeg yn esmwyth ar gyfer fy nyfais (**tudalen 14**).

Os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bopeth ar y rhestr wirio hon ac nad yw'r gêm yn gweithio, naill ai gofynnwch i'ch Athro, Technegydd TG, neu ewch i'r wefan gymorth yn:

https://educommunity.minecraft.net/hc/en-us